# PWYLLGOR CYNLLUNIO

# DYDD MAWRTH, 15EG MAI, 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, S.A. Curry, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas a J.E. Williams

**Also in attendance:**
Y Cynghorydd A. James ar gyfer Cais Cynllunio E/33695;
Y Cynghorydd D.E. Williams, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio W/37038.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

| | | |
|---|---|---|
| Ms L. Quelch | - | Pennaeth Cynllunio |
| Mr J. Edwards | - | Rheolwr Datblygu a Threftadaeth Adeiledig |
| Mr J. Thomas | - | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu |
| Mr S. Murphy | - | Uwch Gyfreithiwr |
| Mr K. Phillips | - | Swyddog Rheoli Datblygu |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 11.25 a.m.**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J.K. Howell.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONAL.

| Y Cynghorydd | Eitem(au) yn y Cofnodion | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| K. Lloyd | W/35903 – Datblygiad preswyl – cadw'r holl faterion yn ôl ar dir yn Lluest y Bryn, Caerfyrddin. | Mae ganddo fuddiant rhagfarnol yn y cais hwn. |

## 3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

3.1 **PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **E/35873** | **Tŷ newydd gyda garej integrol ar Lain 11, Gwaun Henllan, Tir-y-dail, Rhydaman SA18 2FD**<br><br>[SYLWER: Roedd y penderfyniad ynghylch y cais uchod yn unfrydol.] |

| | |
|---|---|
| **E/36854** | **Newid defnydd y breswylfa 3 ystafell wely o ddefnydd C3 i dŷ amlfeddiannaeth C4 â 6 ystafell wely. Newidiadau cysylltiedig i un ffenestr yn y cefn a newid ffenestri eraill sy'n berthnasol yn ogystal â tho penty er mwyn cydymffurfio â rheoliadau diogelwch yn 16 Stryd y Neuadd, Rhydaman SA18 3BW.** |

3.2 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-**

| | |
|---|---|
| **E/33695** | **Cais cynllunio llawn i godi uned ddofednod ar fferm er mwyn cadw ieir maes (i gynhyrchu wyau) ynghyd â biniau bwydydd cysylltiedig, mynediad mewnol o'r fferm a gwaith cysylltiedig yng Ngodre Garreg, Llangadog, SA19 9DA.**<br><br>**Y RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle.<br><br>Yn unol â phrotocol y Pwyllgor Cynllunio, roedd y gwrthwynebydd a oedd wedi gofyn am gael siarad ynghylch y cais hwn wedi dewis cyflwyno ei sylwadau yn y cyfarfod a fydd yn dilyn yr ymweliad â'r safle. |

## 4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

4.1 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **S/36946** | **Adeiladu preswylfa ar wahân ar dir yn 61 Heol Pwll, Llanelli SA15 4BD.** |

## 5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

5.1 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/36577** | **Amrywio amod 2 o ganiatâd cynllunio W/30595 (estyn yr amser a ganiateir ar gyfer cyflwyno materion a gadwyd yn ôl) ar dir yng Nghaeglas, Sanclêr, Caerfyrddin SA33 4EY.** |

5.2 **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y ceisiadau cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio ymweld â'r safle:-**

| | |
|---|---|
| **W/35903** | **Datblygiad preswyl - cadw'r holl faterion yn ôl ar dir ger Lluest y Bryn, Caerfyrddin.**<br><br>[SYLWER: Gan ei fod wedi datgan buddiant personol a rhagfarnol yn y cais hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd K. Lloyd y siambr cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]<br><br>**Y RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle |
| **W/37038** | **Addasu adeilad amaethyddol diangen presennol yn 2 uned wyliau i'w gosod yn Nhycerrig, Nant-y-caws, Caerfyrddin, SA32 8EW.**<br><br>**Y RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle.<br><br>Cafwyd sylw yn gofyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle. |

5.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhesymau dros wrthod a ddrafftiwyd gan y Pennaeth Cynllunio, fel y'u manylwyd yn yr adroddiad, mewn perthynas â'r ceisiadau cynllunio canlynol y gwrthododd y Pwyllgor Cynllunio roi caniatâd cynllunio iddo, yn groes i argymhelliad y swyddog, ar 17 Ebrill 2018:-**

| | |
|---|---|
| **W/35450** | **Datblygiad preswyl arfaethedig gan gynnwys 42 o breswylfeydd ar dir ger Ysgol Gynradd Talacharn, Talacharn SA33 4SQ.**<br><br>Dywedodd y Rheolwr Datblygu a Threftadaeth Adeiledig fod neges e-bost wedi dod i law gan asiant yr ymgeisydd, a darllenodd y neges er gwybodaeth i'r Pwyllgor. |
| **W/35730** | **Adeiladu dwy uned A1 ac un uned A3 ynghyd â lleoedd parcio cysylltiedig ar hen safle Cartref Tawelan, Llwyn Onn, Caerfyrddin SA31 1PY.**<br><br>[SYLWER: Roedd y penderfyniad ynghylch y cais uchod yn unfrydol.] |

## 6. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFODYDD A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-

### 6.1. 5ED EBRILL, 2018

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 5ed Ebrill, 2018 yn gywir.**

## 6.2 17EG EBRILL, 2018

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2018 yn gywir.**

*[SYLWER: Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.]*

| | |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |